

STRATEGAETH 2014-2017



**MENTER IAITH
BRO MORGANNWG**

**HYRWYDDO'R
GYMRAEG YM MRO MORGANNWG**

**PROMOTING THE WELSH LANGUAGE
IN THE VALE OF GLAMORGAN**





1. **Cyflwyniad a chefnidir Menter Bro Morgannwg**
2. **Sefyllfa bresennol y Gymraeg ym Mro Morgannwg**
3. **Prif Amcanion Menter Bro Morgannwg**
4. **Meysydd Gweithredu**
5. **I Gloi**

Prif Nod Menter Bro Morgannwg

Prif nod Menter Bro Morgannwg yw i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Y Fro, a chreu cyfleoedd i drigolion y Sir ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau gwaith a muriau ysgol.



Cyflwyniad a chefnidir sefydlu Menter Bro Morgannwg

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd tendor i ddatblygu ac arwain prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Derbyniodd Menter Caerdydd swm o £30,000 gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ar y gwaith o gyd-weithio â phartneriaid lleol yn ogystal â'r awdurdod lleol, a chodi proffil a defnydd yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg yn sgil hynny felly, ac mae gan y Fenter ddau aelod o staff ar hyn o bryd.

Ym mis Gorffennaf 2013, cynhalion ni Asesiad Anghenion er mwyn darganfod pa gyfleoedd cymdeithasol oedd ar gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg, a mesur y galw am weithgareddau pellach. Derbyniwyd 532 o ymatebion dros gyfnod o lai na thair wythos, ac fe roedd yr adborth a gasglwyd o'r holiadur hwnnw yn dangos yn glir bod gwendid yn y ddarpariaeth gymdeithasol cyfrwng Gymraeg ar gynnig ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd, a bod galw cryf am fwy o wasanaethau a gweithgareddau Gymraeg yn y Sir. Atebodd 88.7% yr hoffon nhw weld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg.

Yn ystod ein blwyddyn cychwynnol, rydym ni wedi sefydlu a'n arwain Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg, er mwyn dod â mudiadau a chymdeithasau sy'n gweithredu drwy'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg at ei gilydd; i adrodd nôl am eu maes gwaith, rhannu syniadau am arfer da ac ystyried cyfleoedd i gyd-weithio. Ffurfiwyd hefyd Bwyllgor Rheoli o fewn y 12 mis diwethaf, sy'n cynnwys 15 o aelodau a 6 ohonynt yn Gyfarwyddwyr y Cwmni, a bydd y Pwyllgor yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn i drafod datblygiadau'r Fenter.

Fforwm Iaith Bro Morgannwg:

Siân Lewis	Menter Bro Morgannwg (Cadeirydd)
Ffion Rhisiart	Menter Bro Morgannwg
Menna Roberts	Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Nant Talwg
Geraint Scott	Urdd Gobaith Cymru
Tudur Rees	Urdd Gobaith Cymru
Shirley Williams	Merched y Wawr
Christine Franks	Coleg Caerdydd a'r Fro/YMCA Cymru/WEA
Mared Furnham	Cyd-lynydd Gymraeg i Oedolion Cyngor Bro Morgannwg
Ann Angell	Mudiad Meithrin
Rhian Thomas	Mudiad Meithrin
Adrian Price	Canolfan Gymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro
Gwenllian Willis	Canolfan Gymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro
Eiry Palfrey	Cynrychiolwyr Cymdeithasau'r Fro
Heulwen Cooper	Cynrychiolwyr Cymdeithasau'r Fro

Menter Bro Morgannwg.
Cwmni Cyfyngedig drwy
warant. Rhif cofrestredig:
8867706 (Cymru a Lloegr)

Strwythr Rheoli

Cyfeiriad Cofrestredig: **42 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG**

Cyfarwyddwyr y Cwmni: **Gwenllian Grigg
Gwenno Huws
Alun Daniel
Sara Jén Dafis
Sian-Elin Jones
Dulyn Griffith**

Ysgrifennydd y Cwmni: **Ffion Rhisiart**

Pwyllgor Rheoli: **Gwenllian Grigg (Cadeirydd)
Gwenno Huws (Is-Gadeirydd)
Eiry Palfrey (Ysgrifennydd)
Alun Daniel (Trysorydd)
Sara Jén Dafis
Dylan Jones
Sian-Elin Jones
Dulyn Griffith
Geraint Scott
Glenda Jones
Eric Thomas
Gwenda Richards
Heulwen Cooper
Anna Brown
Catrin Awoyemi**

Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

Swyddog Datblygu: **Ffion Rhisiart**



Sefyllfa Bresennol y Gymraeg ym Mro Morgannwg

Yn ôl Cyfrifiad 2011, poblogaeth y Sir yw 122,018 gyda 13,189 yn siarad Cymraeg. O'r 22 Sir yng Nghymru, mae'n 12fed o ran poblogaeth ac erbyn hyn mae 11% yn siarad Cymraeg. Mae'n cynnwys trefi'r Barri a Phenarth, ac mae canran sylweddol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn ardaloedd megis Llanilltud Fawr, Ewenni, Llandŵ, Y Bontfaen a'r Rhws. Mae galw cynyddol a thwf mewn addysg Gymraeg yn yr ardal, ac mae 7 Ysgol Cynradd ac 1 Ysgol Gyfun cyfrwng Cymraeg yn y Sir erbyn hyn.

Yn dilyn yr asesiad anghenion a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2013, gellir gweld bod yr awydd a'r gweledigaeth gan drigolion y Fro i weld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg. O'r 539 o ymatebion a gasglwyd, atebodd 88.7% eu bod eisiau gweld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg, a 91.7% yn awyddus i weld mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd ym Mro Morgannwg. Daeth i'r amlwg felly bod galw cryf am fwy o wasanaethau Cymraeg ar draws pob categori oed – teuluoedd, plant meithrin, plant oed Ysgol, pobl ifanc ac oedolion – er mwyn sicrhau cydraddoldeb ac i roi'r cyfleoedd gorau posibl i drigolion Bro Morgannwg gael defnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

Rydyn ni'n ymwybodol o bartneriaid eraill sydd eisoes yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal – gan gynnwys 7 Ysgol Cynradd ac 1 Ysgol Gyfun Cymraeg y Sir, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro – ac rydym yn ymwybodol, yn dilyn cyfarfodydd Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg, bod gan y partneriaid oll yr awydd a'r weledigaeth i weld y Gymraeg yn ffynnu.

Sefydlwyd nifer o Bwyllgorau Ardal yn ystod y cyfnod o baratoi at Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012, ac fe wnaed gwaith da iawn yn denu diddordeb a chefnogaeth gan Gymry Cymraeg a di-Gymraeg y Sir. Byddwn ni'n adeiladu ar y momentwm hynny trwy gyd-weithio gyda mudiadau gwirfoddol Cymraeg yr ardal yn ogystal (gan gynnwys Cymrodorion y Barri, y Capeli Cymraeg, a chlybiau hamdden) er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned, ac ehangu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau gwaith ac Ysgol.

Amcanion 2014 - 2017

- Creu amserlen eang o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg i drigolion Bro Morgannwg.
- Gweithio mewn partneriaeth a chynorthwyo Cyngor Sir Bro Morgannwg i wella'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig i drigolion yn y Fro.
- Ceisio am gyllid gan gronfeydd allanol er mwyn creu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer trigolion Bro Morgannwg.
- Asesu'r angen yn flynyddol am wasanaethau Cymraeg yn y Sir.
- Cryfhau'r defnydd o'r rhwydweithiau digidol a marchnata'n fwy effeithiol.
- Annog a hyrwyddo perchnogaeth gymunedol o'r iaith Gymraeg o fewn y Sir.
- Casglu data ac ymchwil am sefyllfa'r Gymraeg yn y Sir.
- Cydweithio gyda mudiadau lleol a chenedlaethol er mwyn codi proffil gweledol y Gymraeg a chryfhau statws yr iaith yn y Sir.



Meysydd Gweithredu

1. Datblygu a darparu cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
2. Datblygu partneriaethau gyda mudiadau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Cyngor Sir Bro Morgannwg.
3. Marchnata a Gwasanaethau Digidol Cymraeg ym Mro Morgannwg.
4. Ymchwil a Gwerthuso.
5. Nawdd a Chyllid.



1. Datblygu a Darparu Cyfleoedd Cymunedol i Ddefnyddio'r Iaith Gymraeg

- Datblygu 'Gigs Bach y Fro', sef calendr o ddigwyddiadau celfyddydol cymunedol Cymraeg ar draws Bro Morgannwg. Y nod hir-dymor yw i barhau i gynnal y Gigs wedi'r flwyddyn cychwynnol (2014/15) ac y bydd y prosiect yn ehangu a'n datblygu i gynnwys Gŵyl Gymraeg blynyddol fel dathliad pellach o gerddoriaeth a chelfyddydau Cymraeg ym Mro Morgannwg.
(Meysydd Strategol 2 a 3: Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)
- Cydweithio gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg er mwyn datblygu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc ymwneud gyda'r iaith Gymraeg tu allan i oriau Ysgol.
(Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc)
- Datblygu Gwasanaeth Gofal Plant Cymraeg yn ystod cyfnodau Gwyliau Ysgol i blant 5-11 oed, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Bro Morgannwg.
(Meysydd Strategol 1-3: Teulu, Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)
- Datblygu Clybiau Hamdden cyfrwng Cymraeg wythnosol i blant a phobl ifanc y Sir y tu allan i oriau Ysgol, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Bro Morgannwg ac Adran Chwaraeon yr Urdd.
(Meysydd Strategol 2 a 3: Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)
- Datblygu cyfleoedd Chwarae Agored cyfrwng Cymraeg i blant yn ystod cyfnodau Gwyliau Ysgol, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Bro Morgannwg.
(Meysydd Strategol 1-3: Teulu, Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)
- Datblygu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc y Sir ymwneud gyda'r Gymraeg y tu allan i oriau'r Ysgol.
(Meysydd Strategol 2 a 3: Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)
- Datblygu gwasanaeth cymdeithasol Cymraeg i blant meithrin a'u teuluoedd.
(Meysydd Strategol 1-3: Teulu, Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)
- Cydweithio gyda Cymraeg i Oedolion y Sir er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd Cymraeg sydd ar gynnig i Oedolion Bro Morgannwg.
(Maes Strategol 3: Y gymuned)
- Cydweithio gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Sir a Mudiadau Gwirfoddol Cymraeg y Sir.
(Meysydd Strategol 1, 2, 3 a 5: Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Y gymuned a Gwasanaethau Cymraeg)
- Atgyfnerthu'r dimensiwm ieithyddol rhwng yr Ysgol a'r gymuned.
(Maes Strategol 3: Y gymuned)
- Creu Prosiectau Treftadaeth ar draws y Sir fydd yn ymwneud gyda Phlant, Pobl Ifanc ac Oedolion Bro Morgannwg.
(Meysydd Strategol 1-3: Teulu, Plant a Phobl Ifanc ac Y gymuned)



2. Datblygu Partneriaethau gyda Mudiadau Lleol a Chenedlaethol gan gynnwys Cyngor Sir Bro Morgannwg

- Pwyso, annog a chynorthwyo'r Cyngor Sir i wella ei ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg drwy gynnig cyngor ac arweiniad a bod yn bartner i gynlluniau Strategaeth Gymraeg i'r Sir.
(Meysydd Strategol 1-5: Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Y gymuned, Y gweithle a Gwasanaethau Cymraeg)
- Parhau i ddatblygu ar y bartneriaeth gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg er mwyn sicrhau ei bod yn gwireddu ei Polisi Iaith, ac yn ymwybodol o oblygiadau'r Mesur Iaith/Safonau Iaith o ran sicrhau cyfleoedd teg drwy'r Gymraeg i drigolion Y Fro.
(Meysydd Strategol 1-5: Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Y gymuned, Y gweithle a Gwasanaethau Cymraeg)
- Arwain "Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg" sydd yn cynrychioli mudiadau a chymdeithasau Cymraeg o fewn y Sir drwy:
 - Rhannu profiadau ymhlith yr aelodau
 - Rhannu gwybodaeth am bynciau allweddol
 - Rhannu gwybodaeth am ymarfer da mewn meysydd perthnasol
 - Tynnu ein sylw at ddatblygiadau polisi perthnasol i'r aelodau
 - Hybu'r Gymraeg ymhlith mudiadau a grwpiau'r ardal**(Meysydd Strategol 3-5: Y gymuned, Y gweithle a Gwasanaethau Cymraeg)**
- Datblygu partneriaethau gyda sefydliadau Cymraeg a Saesneg y Sir – partneriaid yn Cynnwys y Sector Cyhoeddus, 3ydd Sector a'r Sector, gan gynnwys y VCVS – er mwyn datblygu rhwydweithiau gwaith effeithiol o ran y Gymraeg ym Mro Morgannwg.
(Meysydd Strategol 3-5: Y gymuned, Y gweithle a Gwasanaethau Cymraeg)
- Datblygu partneriaethau gyda chyrrff cenedlaethol er mwyn codi proffil Menter Bro Morgannwg a chyfrannu at agweddau cenedlaethol yr iaith. Sicrhau bod Menter Bro Morgannwg yn weithgar o fewn amserlen hyfforddiant a datblygu Mentrau Iaith Cymru.
(Meysydd Strategol 3-5: Y gymuned, Y gweithle a Gwasanaethau Cymraeg)

3. Marchnata a Gwasanaethau Digidol Cymraeg ym Mro Morgannwg

a) Marchnata

- Codi delwedd a proffil Menter Bro Morgannwg ar lefel gymunedol a Chenedlaethol.
- Datblygu partneriaeth a chysylltiad gyda'r cyfryngau a'r wasg.
- Codi proffil Menter Bro Morgannwg mewn digwyddiadau cyhoeddus.

b) Gwasanaethau Digidol Cymraeg (*Maes Strategol 3: Y gymuned*)

- Datblygu safle We'r Fenter er mwyn hysbysu trigolion y Fro am weithgareddau Cymraeg ym Mro Morgannwg, a hefyd parhau i hyrwyddo trwy rhwydweithiau cymdeithasol.
- Datblygu rhwydwaith e-chlysur, sef basddata sy'n hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg yn wythnosol i drigolion Bro Morgannwg.
- Creu cylchlythyr digidol dwyieithog fydd yn hyrwyddo elfennau o ddigwyddiadau cymunedol y Sir i filoedd o dderbynyddion.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r papur lleol Glamorgan Gem, er mwyn sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn rhan o'r papur yn chwarterol. Mae cyfanswm o 43,000 o gopiau caled yn cael eu dosbarthu i gartrefi a manau cyhoeddus o gwmpas pob ardal o fewn y Fro, yn ogystal â chopi electronig ar gael i'w ddarllen ar y wê, a bydd hyn yn ffordd effeithiol o godi proffil a statws yr iaith yn y Sir.
- Parhau i farchnata a chynyddu'r gwybodaeth a'r nifer o ddilynwyr ar Twitter Menter Bro Morgannwg.
- Creu tudalen Facebook i Menter Bro Morgannwg, a sicrhau cynnwys cyson a diddorol.



4. Ymchwil a Gwerthuso

a) Ymchwil

- Casglu gwybodaeth oddi wrth y gymuned drwy amryw o ffyrdd megis holiaduron, cyfarfodydd cyhoeddus, grwpiau trafod ar bynciau penodol, fforymau Ysgol a'r Fforwm Iaith.
- Ceisio creu darlun cyflawn o anghenion y gymuned o'r iaith Gymraeg yn y Fro.

b) Gwerthuso

- Gwerthuso gwasanaeth y Fenter yn ôl y galw.
- Arolygir cynnydd tuag at yr amcanion strategol hynny:
 - Wrth i'r Pwyllgor Rheoli dderbyn adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd gan y staff cyflogedig
 - Wrth i'r Pwyllgor Rheoli dderbyn adroddiadau ariannol rheolaidd gan y Trysorydd
 - Wrth baratoi adroddiad/cyfrifon blynyddol, archwiliedig, sy'n dderbyniol i'r gwahanol gyllidwyr
 - Wrth gynnal cyfarfod blynyddol agored i'r cyhoedd i dderbyn y cyfrifon, adroddiadau a gwneud cynigion, ac ethol pwyllgorau a swyddogion yn unol â'r Cyfansoddiad.



5. Nawdd a Chyllid

- Ymchwilio i fewn i ffynonellau nawdd a chyllid newydd.
- Ceisio am nawdd ychwanegol gan gyllidwyr lleol a Chenedlaethol.
- Cynnal perthynas iach gyda chyllidwyr presennol wrth sicrhau adroddiadau cyson am ein gwaith.
- Creu strategaeth effeithiol i ddenu nawdd a chyllid i'r dyfodol.

6. Busnes / Y Gweithle

(Meysydd Strategol 3-5: Y gymuned, Y gweithle a Gwasanaethau Cymraeg)

- Codi ymwybyddiaeth ac annog trigolion Bro Morgannwg i gymryd rhan yn yr ymgyrch 'Pethau Bychain'.
- Dosbarthu bathodynau 'Cymraeg' o gwmpas Bro Morgannwg, i weithlefydd a busnesau lle mae aelodau o'r staff yn gallu cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hyrwyddo busnesau a mudiadau sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg ar wefan Menter Bro Morgannwg.

I Gloi

Mae'r Fenter ar hyn o bryd yn ei gyfnod cychwynnol, ond mae'r seilwaith erbyn hyn mewn lle, ac rydyn ni fel staff a Phwyllgor Rheoli yn hyderus bod modd, mewn partneriaeth, i gynyddu a datblygu ar y cyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn adlewyrchu ein nodau a'm hamcanion, sydd yn rhai yr ydym ni'n ystyried i fod yn realistig a chyraeddadwy, er mwyn sicrhau ein bod ni'n ymateb i alw trigolion y Sir am fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Menter Bro Morgannwg

Ffion Rhisiart – ffion@menterbromorgannwg.org



